**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (GLANGRWYNE I BONT WEN, HALFWAY, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Glangrwyne a Halfway, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ffin sirol Powys/Sir Fynwy yn Lodge Culvert, Glangrwyne hyd at ffin sirol Powys/Sir Gaerfyrddin wrth Bont Wen, Halfway, Powys. Disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol yn ystod gwaith confoi a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Daw’r Gorchymyn i rym ar 28 Awst 2026. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o’r gloch ar y dyddiad hwnnw am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (GLANGRWYNEY TO PONT WEN, HALFWAY, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Glangrwyney and Halfway, Powys.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A40 trunk road that extends from the Powys/Monmouthshire county boundary at Lodge Culvert, Glangrwyney to the Powys/Carmarthenshire county boundary at Pont Wen, Halfway, Powys. The 10 mph speed limit is expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 28 August 2026. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate intermittently from 08:00 hours on that date for a maximum duration of 18 months. Notice of all works during this period will be displayed before they start.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government